



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Galwad am Gynigion ar strategaeth Roma mudol ar gyfer Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2016

	Cynnwys	Tudalen
1.	Cyflwyniad	3
2.	Cyd-destun	4
3.	Ymgynghoriad	5
4.	Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad	7
4.1	A oes angen cynigion penodol i wella cynhwysiant cymdeithasol Roma mudol yng Nghymru?	7
4.2	Beth yw'r rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol Roma mudol a sut y dylid mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn?	8
4.3	Pa gynigion y dylid eu datblygu yn eich barn chi?	10
4.4	A oes yna enghreifftiau o arfer da yn ymwneud â gwasanaethau a dargedir a ddarperir i Roma y gellid eu copïo mewn ardaloedd eraill?	12
4.5	Ydyn ni wedi gofyn yr holl gwestiynau pwysig? Os na, ar ba faterion eraill y dylem ni gael eich barn?	13
5.	Sylwadau i Gloi	14
6.	Camau Nesaf	14
	Atodiad A – Sefydliadau a ddaeth i'r gweithdy	15

1. Cyflwyniad

Ar 5 Hydref 2015, lansiodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi alwad am gynigion ar strategaeth Roma mudol ar gyfer Cymru. Roedd yr alwad am gynigion yn gofyn am farn pobl ar a oedd angen strategaeth bwrpasol ar gyfer cynnwys Roma mudol.

Mae sawl adroddiad ymchwil yn awgrymu bod cymunedau Roma mudol yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol mewn amryw o feysydd, gan gynnwys cyflogaeth, addysg a gofal iechyd, er bod ganddynt hawliau cyfartal o dan y gyfraith. Cafodd cynigion manwl penodol ar gyfer mesurau i wella cynhwysiant cymdeithasol eu hannog.

Dylai polisiau cynhwysiant cymdeithasol ddilyn 10 Egwyddor Sylfaenol Gyffredin yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cynnwys Roma:

1. Polisiau adeiladol, pragmatig ac anwahaniaethol
2. Targedu clir ond nid egsgliwsif
3. Ymagwedd ryngddiwyllyannol
4. Targedu'r brif ffrwd
5. Ymwybyddiaeth o'r dimensiwn rhywedd
6. Trosglwyddo polisiau seiliedig ar dystiolaeth
7. Defnyddio offerynnau'r Undeb Ewropeaidd
8. Cynnwys awdurdodau lleol a rhanbarthol
9. Cynnwys cymdeithas sifil
10. Cyfraniad gweithredol Roma.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn ystyried a oes angen cynigion penodol i gefnogi cynnwys Roma er mwyn cefnogi'r gymuned. Ni fydd y penderfyniad terfynol ar strategaeth Roma mudol yn cael ei wneud hyd nes y bydd Llywodraeth newydd ar waith yn nhymor newydd y Cynulliad.

Yn yr ymgynghoriad hwn, mae'r term 'Roma mudol' yn cyfeirio at y grwpiau Roma hynny a oedd wedi ymgartrefu am gyfnod yng Nghanolbarth a Dwyrain Ewrop ac sydd wedi mudo i Gymru yn ddiweddar (yn bennaf ers ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn 2004).

2. Cyd-destun

Yng Nghymru, mae *Teithio at Ddyfodol Gwell: Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr* yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gymunedau brodorol Sipsiwn a Theithwyr. Yn y cyfamser, nid oes strategaeth bwrpasol i gefnogi cynnwys Roma mudol yng Nghymru. Yn hytrach, mae aelodau o'r gymuned hon yn cael eu trin yn gyfartal wrth gael mynediad at wasanaethau o dan y gyfraith. Er hynny, gofynnodd yr ymgynghoriad am farn pobl ar unrhyw anfanteision anghymesur y mae Roma mudol yn eu hwynebu a all danseilio'r cysyniad o fynediad cyfartal at wasanaethau yng Nghymru.

Fel un o Aelod-Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, rhaid i'r DU (a Chymru) hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol Roma. Gellir gwneud hyn trwy Strategaeth Integreiddio Roma Genedlaethol bwrpasol neu drwy gyfres integredig o fesurau polisi. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy bolisiau cynhwysiant cymdeithasol sy'n berthnasol i bob cymuned, yn ogystal â chynigion pwrpasol i gefnogi Sipsiwn a Theithwyr trwy *Teithio at Ddyfodol Gwell*.

Mae Adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw priodol i'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb wrth arfer eu swyddogaethau. Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru roi sylw i'r angen i ddileu gwahaniaethu, darparu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

3. Ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad ar waith rhwng 5 Hydref 2015 a 10 Ionawr 2016. Darparwyd fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflenni ymateb.

Cafodd pum cwestiwn eu hamlinellu mewn dogfen a oedd ar gael ar-lein, yr oedd modd ei dychwelyd naill ai fel copi caled neu dros yr e-bost. Cafodd rhanddeiliaid allweddol a oedd wedi gweithio gyda Roma mudol eu gwahodd yn uniongyrchol i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Cafwyd 26 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad gan sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys:

- 6 Awdurdod Lleol (gan gynnwys 2 wasanaeth addysg)
- 6 sefydliad cymorth Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- 4 aelod o'r cyhoedd
- 1 heddlu
- 1 Bwrdd Iechyd
- 1 feddygfa ddeintyddol
- 1 feddygfa deulu
- 1 brifysgol
- 1 sefydliad tai
- 1 arolygiaeth
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Ymatebwyr Ysgrifenedig (sefydliadau)	
Roma Support Group	Romani Cultural & Arts Company
Prosiect 'Travelling Ahead' Achub y Plant	Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru
Prifysgol Salford	EMTAS Caerdydd
Tai Pawb	Cyngor Sir y Fflint
BIP Aneurin Bevan	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Gwynedd	Unity into the Community
Dechrau'n Deg Cyngor Casnewydd	Heddlu Dyfed-Powys
Estyn	Cyngor Sir Powys
GEMS Casnewydd	Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Lle cyfeirir at sylwadau mewn ymatebion ysgrifenedig yn y ddogfen hon, mae enw'r ymatebydd wedi'i gynnwys mewn llythrennau italig ac weithiau mewn cromfachau.

Yn ogystal â'r ymatebion ysgrifenedig a nodir uchod, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gydag aelodau'r gymuned Roma yng Nghasnewydd a chyda sefydliad cymorth arall yng Nghaerdydd.

Aethom ati hefyd i gynnal gweithdy rhanddeiliaid yng Nghaerdydd. Bwriad y gweithdy hwn oedd gwella dealltwriaeth cynrychiolwyr i sicrhau bod ymatebion ysgrifenedig gwybodus yn cael eu cyflwyno. Darparodd y gweithdy sylwadau cyffredinol am yr ymgynghoriad hefyd. Mae rhestr o'r sefydliadau a anfonodd gynrychiolwyr i'r gweithdy yn **Atodiad A**.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad. Ei nod yw rhoi trosolwg o hyd a lled yr ymatebion a rhoi syniad o'r materion a gododd yn aml. Er mai dim ond crynodeb byr o'r ymatebion a geir yn y ddogfen hon, mae pob un o'r ymatebion wedi bod yn adnodd hollbwysig i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r canllawiau terfynol.

Er gwaethaf sawl ymgais i ymgysylltu ag aelodau'r gymuned Roma mudol wyneb yn wyneb, dim ond un grŵp ffocws y llwyddwyd i'w gynnal. Os bydd cynigion polisi penodol yn cael eu datblygu i'w cynnwys mewn strategaeth, bydd angen i fwy o aelodau o'r gymuned Roma gyfrannu'n weithredol er mwyn sicrhau bod y cynigion yn addas i'r diben. Er hynny, bu 7 sefydliad cymorth Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori hon, ac roedd y sylwadau a wnaethant ar eu profiadau o gefnogi'r gymuned hon yn hynod ddefnyddiol.

4. Ymatebion i'r cynigion

Mae'r ymatebion hyn i'r cynigion yn crynhoi sylwadau o'r ymatebion ysgrifenedig, yr ymgynghoriadau ar-lein a'r digwyddiadau a gynhaliwyd ledled Cymru.

4.1 A oes angen cynigion penodol i wella cynhwysiant cymdeithasol Roma mudol yng Nghymru?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig:

Roedd 68% o'r ymatebwyr a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn yn teimlo bod angen cynigion penodol i wella cynhwysiant cymdeithasol Roma mudol. Dywedodd 20% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo y dylai'r mesurau hyn gael eu cynnwys mewn Fframwaith Gweithredu diwygiedig ar gyfer *Teithio at Ddyfodol Gwell*. Dim ond un ymatebydd oedd yn teimlo bod angen strategaeth ar wahân ar gyfer Roma mudol.

Crynodeb o'r ymatebion gan aelodau'r gymuned:

Yn ystod y grŵp ffocws gydag aelodau'r gymuned Roma, cafwyd anghytundeb ynglŷn â'r angen am strategaethau ar wahân ar gyfer eu cymuned. Nid oedd rhai aelodau o'r gymuned am gael eu hadnabod fel cymuned ar wahân oherwydd eu bod yn poeni y byddai hyn yn cael effaith negyddol arnynt. Fodd bynnag, roedd rhai aelodau o'r gymuned o'r farn bod strategaeth yn angenrheidiol i sicrhau y gallai newydd-ddyfodiaid integreiddio'n iawn yng nghymdeithas Cymru.

Roedd aelodau'r grŵp ffocws yn anghytuno hefyd ynglŷn â fformat strategaeth fel un ar wahân neu un gyfunol o fewn *Teithio at Ddyfodol Gwell* ar ei newydd wedd gan nad oedd pawb yn cytuno bod pob cymuned yr un fath.

Er hynny, roedd y grŵp ffocws yn teimlo bod angen mesurau penodol i gefnogi cynhwysiant cymdeithasol y gymuned Roma.

4.2 Beth yw'r rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol Roma mudol a sut y dylid mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig:

Roedd llawer o gysondeb yn yr atebion a ddarparwyd i'r cwestiwn hwn, gyda'r ymatebwyr yn nodi materion cyffredin sy'n wynebu Roma. Ystyriwyd bod un o'r rhwystrau mwyaf sylweddol i gynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru yn deillio o rywle arall, fel y nododd *Roma Support Group*: "mae llawer o Roma mudol yn y DU yn dianc o allgau economaidd (yr un fath ag achosion eraill o fudo yn yr UE) a gorthrwm sefydliadol (yr un fath â ffoaduriaid eraill o'r tu allan i'r UE)."

Nododd 42% o'r ymatebwyr bod ofn neu ddrwgdybiaeth o'r gwasanaethau statudol yng Nghymru oherwydd profiadau blaenorol o 'awdurdod' yng ngwledydd tarddiad llawer o'r Roma mudol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod yr ofn hwn yn cael ei amlygu mewn sawl ffordd, gan atal cynhwysiant cymdeithasol Roma. Er enghraifft, amharodrwydd i nodi 'Roma' fel ethnigrwydd (lle cynigir y dewis ar ffurflenni swyddogol) oherwydd ofn cael eu hadnabod a'u fictimeiddio (*Dechrau'n Deg Cyngor Casnewydd*). Yn ogystal, nododd un ymatebydd fod rhaglen ddogfen a fu ar y teledu yn Slofacia yn honni bod system ofal y DU yn tueddu i gymryd plant oddi ar eu rhieni yn rheswm arall pam roedd y gymuned Roma yn ddrwgdybus.

Er hynny, nododd rhai o'r ymatebwyr enghreifftiau o wahaniaethu yng Nghymru, megis "agweddau rhagfarnlyd staff gofal sylfaenol" (*Roma Support Group*), gwahaniaethu parhaus gan fudwyr eraill o'r un cenedligrwydd (*Romani Cultural and Arts Company*) a stereoteipiau a gyflwynir gan y cyfryngau (*Cyngor Sir y Fflint*).

Cyfeiriodd 46% o'r ymatebwyr at rwystrau iaith neu lythrennedd sy'n effeithio ar gynhwysiant. Ar y cyfan, roedd y rhwystrau hyn yn ymwneud â chanlyniadau allgáu addysgol neu wahanu Roma yn eu gwledydd tarddiad, sy'n golygu bod lefelau uchel o anlythrennedd ymhlith y Roma sy'n byw yng Nghymru. Felly, mae'n annhebygol y bydd gwasanaethau cyfieithu i iaith ysgrifenedig y wlad darddiad yn ddefnyddiol i Roma. Yn ogystal, roedd *Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan* yn teimlo bod y Llinell Iaith yn amhriodol.

Gwnaeth 29% o'r ymatebwyr sylwadau ar broblemau yn ymwneud â gorlenwi neu dai gwael sy'n wynebu'r gymuned Roma. Ystyriwyd bod rhai o'r materion hyn o ganlyniad i lythrennedd gwael, ac eraill oherwydd tlodi.

Cyfeiriodd 25% o'r ymatebwyr at lefelau sylweddol o dlodi sy'n wynebu'r gymuned hon oherwydd cyfuniad o gefndiroedd tlotach yn eu gwlad darddiad, llythrennedd gwael, diffyg cymwysterau a'u safle ymylol yn y farchnad lafur o ganlyniad. Cyfeiriodd amryw o sefydliadau (*Roma Support Group, Travelling Ahead, Tai Pawb*) at y ffaith bod lefelau tlodi yn gwaethygu pan fo budd-daliadau pasbort, megis Prydau Ysgol am Ddim, yn cael eu tynnu oddi arnynt oherwydd diweithdra sy'n arwain at ddileu 'hawliau Cytundeb'.

Roedd rhwystrau eraill a nodwyd yn cynnwys agweddau'r Roma eu hunain tuag at addysg, y syniad nad oedd y ffordd grwydrol o fyw a chynhwysiant cymdeithasol yn cydweddu a diffyg gwybodaeth am ddiwylliant Prydain.

Crynodeb o'r ymatebion gan aelodau'r gymuned:

Yn ystod y grŵp ffocws ymhlith y Roma, nodwyd diffyg gwybodaeth am wasanaethau cyhoeddus Cymru. Er bod y rhai a ddaeth i'r grŵp ffocws wedi bod yn byw yng Nghymru ers 3-5 mlynedd, nid oeddent yn deall prosesau derbyn a phresenoldeb ysgolion yn iawn. Yn ogystal, nid oeddent yn deall llawer am sut roedd y GIG yn gweithio. Mae'n glir bod diffyg gwybodaeth yn atal teuluoedd fel y rhain rhag integreiddio mewn cymdeithas.

Nododd hwylusydd y Grŵp Ffocws, *Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Deddwyrain Cymru*, na allent atgyfeirio aelodau'r gymuned Roma i Ganolfannau Cyngor ar Bopeth oherwydd rhwystrau iaith. Yn ogystal, roedd gwahaniaethu tuag at Roma gan ymfudwyr eraill o'r un wlad darddiad yn gweithio yn erbyn presenoldeb Roma mewn sesiynau cyngor.

Nododd aelodau'r gymuned eu bod yn ofni datgelu eu hethnigrwydd mewn ysgolion rhag ofn y byddai'n arwain at fwlio amlwg neu at lefel disgwyliadau athrawon o blant Roma yn lleihau, gan gynnwys eu gosod mewn dosbarthiadau arbennig.

Nododd aelodau'r gymuned eu bod nhw'n hapus iawn i fod yn byw yng Nghymru ac nad oedden nhw am gael gwasanaethau ar wahân. Fodd bynnag, roeddent yn cefnogi'r syniad o weithiwr eiriolaeth a chyngor Roma pwrpasol. Byddai'r gweithiwr hwn yn helpu aelodau'r gymuned Roma i ddeall sut mae systemau cymdeithas Cymru yn gweithio.

Nid oedd rhai buddion, megis Prydau Ysgol am Ddim, yn cael eu hawlio oherwydd camddealltwriaeth y byddai gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio'r ffaith bod plant yn derbyn y buddion hyn fel tystiolaeth na allai'r teuluoedd hyn ofalu am eu plant.

Yn olaf, codwyd pryderon ynglŷn â diweithdra gan fod diffyg llythrennedd a chymwysterau yn ei gwneud hi'n anodd cael a chadw swyddi.

4.3 Pa gynigion y dylid eu datblygu yn eich barn chi?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig:

Er bod y rhwystrau a nodwyd yng nghwestiwn 4.2 yn debyg ar gyfer llawer o'r ymatebwyr, roedd tipyn o wahaniaeth rhwng yr atebion arfaethedig i'r materion hyn.

Roedd 38% o'r ymatebwyr yn teimlo ei bod hi'n bwysig datblygu rhyw fath o gymorth pwrpasol ar gyfer y gymuned Roma, gan ddarparu cyngor ac eiriolaeth. Dyma'r cynnig mwyaf cyffredin a awgrymodd yr ymatebwyr. Y sail resymegol dros ddarparu cymorth pwrpasol oedd yr anfanteision lluosog sy'n wynebu Roma, megis gwahaniaethu parhaus, llythrennedd isel a gwaddol eu sefyllfa yn eu gwlad darddiad. Roedd hyn yn golygu bod y gymuned hon yn cael ei hystyried yn un agored i niwed.

Awgrym cyffredin arall (a nodwyd gan 29% o'r ymatebwyr) oedd y dylid darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol i weithwyr proffesiynol y mae eu gwaith yn effeithio ar y gymuned hon, ac addysgu aelodau'r gymuned Roma ar wahanol agweddau ar fywyd yng Nghymru.

Yn ogystal, nodwyd bod angen hyfforddi gweithwyr iechyd, athrawon, yr heddlu a swyddogion hawliau lles, tai, y gwasanaeth prawf, gwaith ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol.

Byddai addysg aelodau'r gymuned Roma yn cynnwys gwybodaeth am sut mae gwasanaethau addysg ac iechyd yn gweithredu yng Nghymru, yn ogystal â gwybodaeth am y diwylliant lleol. Cyfeiriodd un ymatebydd at y sesiynau gofynnol fel "dosbarthiadau tebyg i rai dinasyddiaeth i rieni."

Roedd chwarter yr holl ymatebwyr yn teimlo bod angen gwella prosesau casglu a dadansoddi data mewn perthynas â chymunedau Roma er mwyn sicrhau y gallai gwasanaethau fod yn effeithiol. Roedd *Estyn* yn teimlo bod angen gwella'r defnydd o ddata presenoldeb, gwaharddiadau a chyrhaeddiad i sicrhau bod disgyblion Roma yn gallu derbyn addysg o safon. Roedd *Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru* o'r farn bod angen sail dystiolaeth well i gefnogi cynnwys Roma. Yn ogystal, nododd *Cyngor Sir y Fflint* fod angen prosesau monitro cydraddoldeb cadarn. Awgrymodd *EMTAS Cyngor Caerdydd* y dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol ddefnyddio'r un categorïau ethnigrwydd i gefnogi gwell dadansoddiad o ddata a gwell darpariaeth gwasanaethau.

Roedd 21% o'r ymatebwyr o'r farn ei bod hi'n bwysig hyrwyddo eiriolwyr y gymuned Roma ac ymgysylltu mwy â theuluoedd. Nododd *GEMS Casnewydd* fod llawer o blant yn siarad Romanes fel iaith gyntaf, a bod hyn yn golygu ei bod hi'n bwysig recriwtio eiriolwyr o'r gymuned ei hun, er bod angen tipyn o arian ac amser i wneud hyn. Yn ogystal, roedd *Prifysgol Salford, Romani Cultural and Arts Company, Roma Support Group ac EMTAS Cyngor Caerdydd* yn gweld manteision recriwtio eiriolwyr cymunedol i helpu i feithrin ymddiriedaeth rhwng awdurdodau cyhoeddus a'r gymuned Roma mudol a lledaenu negeseuon ymwybyddiaeth yn y gymuned.

Nododd *EMTAS Cyngor Caerdydd* a *GEMS Casnewydd* bwysigrwydd gwaith cyswllt gyda rhieni er mwyn sicrhau cyflwyniadau esmwyth i safleoedd addysg. Ystyriwyd bod mwy o ymgysylltu â theuluoedd yn bwysig i sicrhau y gellid herio gwaddol yr anfanteision sy'n wynebu Roma yng Nghymru.

Awgrymwyd amryw o gynigion eraill, gan gynnwys 13% o'r ymatebwyr yn nodi bod angen gwell gwybodaeth ar Roma mudol sy'n ymgartrefu yng Nghymru, gwasanaethau ESOL mwy hyblyg, ffocws penodol ar anghenion menywod Roma ifanc a sefydlu corff ymgynghorol i gefnogi datblygiad polisi gyda'r gymuned Roma mudol. Awgrymodd *Tai Pawb* y dylai'r gwaith o ddatblygu corff ymgynghorol ddilyn yr egwyddor o "dim byd amdanon ni, hebddon ni" i annog cyfranogiad gweithredol ac i feithrin ymddiriedaeth gyda'r gymuned Roma.

Nododd rhai ymatebwyr bryderon sylweddol yn ymwneud â gweithdrefnau diogelu plant, gan gynnwys digonolrwydd yr asesiad rhieni safonol yng nghydestun yr anfanteision lluosog sy'n wynebu Roma.

Crynodeb o'r ymatebion gan aelodau'r gymuned:

Yn ystod y grŵp ffocws, roedd aelodau'r gymuned yn teimlo bod angen gweithiwr cyngor ac eiriolaeth pwrpasol i helpu Roma i ddeall sut mae cymdeithas Cymru yn gweithio ac i roi cyfle iddynt gael gwybodaeth hygyrch. Ystyriwyd bod cyfathrebu wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol o lawer na chyfathrebu ysgrifenedig oherwydd problemau llythrennedd.

Roedd aelodau'r gymuned yn teimlo bod hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol i athrawon yn syniad da, gan gynnwys ffyrdd o helpu rhieni i ddeall sut y gallant wella addysg eu plant.

Teimlwyd bod dosbarthiadau llythrennedd i oedolion yn ffordd dda o hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Awgrymwyd mesurau i gefnogi cyflogaeth Roma hefyd.

4.4 A oes yna enghreifftiau o arfer da yn ymwneud â gwasanaethau a dargedir a ddarperir i Roma y gellid eu copïo mewn ardaloedd eraill?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig:

Nododd 67% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn enghreifftiau o arfer da o ran cefnogi cynnwys Roma. Yr enghreifftiau mwyaf cyffredin oedd sefydlu gwasanaethau eiriolaeth a chyingor i gefnogi cynnwys Roma, sy'n cynnwys aelodau'r gymuned Roma fel gweithwyr cyflogedig. Roedd y rhain yn cynnwys *Roma Support Group* a *Roma Community Care*.

Yn ogystal, nodwyd bod cyflogi eiriolwyr y gymuned Roma mewn gwasanaethau statudol presennol (megis Ysgol Llysweri, Casnewydd ac Ysgol Fitzalan, Caerdydd) yn ffordd effeithiol o ymgysylltu â'r gymuned Roma. Cyfeiriodd *Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan* a *Roma Support Group* at raglenni eraill sy'n ceisio annog aelodau'r gymuned Roma i weithredu fel eiriolwyr, gan ddarparu gwasanaeth allgymorth neu bontio rhwng gwasanaethau statudol a'r gymuned Roma.

Nododd *Estyn* ac *EMTAS Cyngor Caerdydd* enghreifftiau o'r defnydd effeithiol o ddata ar ethnigrwydd mewn ysgolion.

Cyfeiriodd *Heddlu Dyfed-Powys* at gyflwyno swyddogion cymorth Troseddau Casineb i ddarparu gwell dealltwriaeth o'r troseddau casineb sy'n cael eu cyflawni yn erbyn Roma.

Yn ogystal, cyfeiriodd *Cyngor Sir y Fflint* at Migration Yorkshire sy'n cynnal y National Roma Network a rhaglen y Roma MATRIX.

Crynodeb o'r ymatebion gan aelodau'r gymuned:

Yn ystod y grŵp ffocws, roedd gan aelodau'r gymuned wahanol safbwyntiau ar y defnydd o eiriolwyr Roma i gefnogi'r gwaith o ymrestru plant mewn ysgolion. Roedd rhai yn teimlo ei fod yn syniad gwych, ond roedd eraill o'r farn na fyddai hyn yn effeithiol yn y rhan fwyaf o achosion.

Teimlwyd bod ysgol Gynradd Maindee (Casnewydd) yn enghraifft o arfer da oherwydd sesiwn dwy awr wythnosol a oedd yn cael ei chynnal i helpu rhieni i ddeall y system addysg. Ystyriwyd bod y cyfle hwn i ofyn cwestiynau a dysgu mwy wedi bod yn hynod werthfawr i'r rhai a gymerodd ran. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer y rhaglen hon bellach wedi dod i ben.

Ystyriwyd bod gwasanaeth / gweithiwr sy'n darparu cyngor ac eiriolaeth wyneb yn wyneb i aelodau'r gymuned Roma yn arfer da, megis y gwasanaeth a gynigir gan *Gyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru*, a drefnodd y grŵp ffocws.

4.5 Ydyn ni wedi gofyn yr holl gwestiynau pwysig? Os na, ar ba faterion eraill y dylem ni gael eich barn?

Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig:

Ni ddarparodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sylwadau eraill ar yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, nododd *People Around Here* fod angen i unrhyw strategaeth Roma mudol asio â strategaeth cydlyniant cymdeithasol ehangach Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd *GEMS Casnewydd* sut y gallai Roma gael eu cyflwyno mewn goleuni mwy cadarnhaol er mwyn herio'r mythau a'r stereoteipiau niweidiol sy'n cael effaith negyddol ar aelodau'r gymuned.

Gofynnodd *Estyn* gwestiynau ychwanegol ar sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi addysg disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai'r ymgynghoriad fod wedi gofyn pa debygrwydd a gwahaniaethau oedd rhwng Sipsiwn a Theithwyr brodorol a chymunedau Roma mudol.

Cyfeiriodd *Prifysgol Salford* at yr angen i ystyried bod materion diogelu cyn bwysiced â datblygu darpariaeth iechyd, tai ac addysg.

Atgyfeiriodd *Cynulliad Cenedlaethol Cymru* Lywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr adroddiad '*Travellers, Gypsies and Roma: access to public services and community relations*' (Hydref 2014) gan y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gynnwys wrth ystyried cynigion ar gyfer cynnwys Roma yn y dyfodol.

Crynodeb o'r ymatebion gan aelodau'r gymuned:

Ni chododd unrhyw bwyntiau ychwanegol penodol o grŵp ffocws aelodau'r gymuned Roma.

5. Sylwadau i gloi

Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad awydd clir am arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cynhwysiant cymdeithasol Roma. Mae'n ymddangos mai'r syniad mwyaf poblogaidd yw datblygu cynigion penodol i gefnogi'r gymuned hon yn *Teithio at Ddyfodol Gwell*, sef y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y gymuned Roma yn wynebu anfanteision lluosog sy'n gofyn am gymorth a dargedir, er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr un cyfle cyfartal o safbwynt cael mynediad at wasanaethau.

Cafodd yr anawsterau a nododd rhanddeiliaid o ran ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned Roma mudol eu hadlewyrchu mewn ymdrechion i ymgysylltu â'r gymuned yn yr ymarfer ymgynghori hwn. Bydd angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod cynigion polisi dilynol yn cael eu datblygu mewn cydweithrediad ag aelodau'r gymuned Roma eu hunain.

Nododd amryw o'r ymatebwyr astudiaethau achos o arferion da neu argymhellion o adroddiadau ac astudiaethau. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys wrth ystyried pa fath o fesurau allai fod yn ymarferol i gefnogi Roma.

Er bod rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnig awgrymiadau a oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd ynglŷn â'r angen am strategaeth, roedd rhywfaint o gysondeb o ran y rhwystrau a'r atebion mewn perthynas â chynnwys Roma.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad trwy anfon ymateb ysgrifenedig atom, trwy gymryd rhan mewn grŵp ffocws neu drwy fynd i weithdy ymgynghori. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cyfraniadau. Hoffem ddiolch yn arbennig i *Gyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru* am helpu i hwyluso'r grŵp ffocws.

6. Camau Nesaf

Caiff copi o'r crynodeb hwn ei anfon at bob un o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn ystyried a oes angen cynigion penodol i gefnogi cynnwys Roma er mwyn cefnogi'r gymuned. Ni fydd y penderfyniad terfynol ar strategaeth Roma mudol yn cael ei wneud hyd nes y bydd Llywodraeth newydd ar waith yn nhymor newydd y Cynulliad.

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu unrhyw gynigion polisi penodol, gan gynnwys ymgysylltu yn uniongyrchol ag aelodau'r gymuned Roma mudol a rhanddeiliaid eraill.

Atodiad A

Mae'r tabl isod yn dangos y sefydliadau a ddaeth i'r gweithdy ymgynghori a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2016.

Caerdydd – 7 Ionawr 2016
Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru
Prosiect ' <i>Travelling Ahead</i> ' Achub y Plant
Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru
Tai Pawb
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Heddlu De Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG